# CYLCHLYTHYR 22.05.26

Dyma ni ar ddiwedd hanner tymor byr ond hynod o brysur! Gobeithiwn gwnewch chi gyd mwynhau'r gwyliau – edrychwn ymlaen at groesawu'r disgyblion yn ôl i'r ysgol ar ddydd Mawrth, 2il Mehefin.

Bydd Clwb Bwrlwm yn cael ei gynnal yn y Pentrebane Zone, ychydig lawr y lôn o'r ysgol, oherwydd y gwaith adeiladu sy'n digwydd ar ein safle. Bydd Bwrlwm yn rhedeg o ddydd Mawrth i ddydd Iau rhwng 10:00 a 11:55. Mae manylion pellach isod.

Here we are at the end of a short but very busy half term! We hope you all enjoy the holidays – we look forward to welcoming pupils back to school on Tuesday, 2nd June.

Clwb Bwrlwm will be held at the Pentrebane Zone, just down the road from the school, due to the building work currently taking place on our site. Bwrlwm will run from Tuesday to Thursday between 10:00 and 11:55. Further details are below.

## Presenoldeb

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| 25-26 | 88.9% | Targed 25-26 | 92% | Y flwyddyn hyd yma | 89.3% |

## Twrnamaint pêl-droed yr Urdd / Urdd football tournament



Llongyfarchiadau i bawb yn nhîm pêl-droed Blwyddyn 4 am gynrychioli'r ysgol mewn twrnamaint yn Lecwith. Llwyddodd y tîm i gyrraedd y rownd gyn-derfynol, gan sgorio nifer o goliau ar hyd y daith. Roedd eu cydweithio a'u chwarae tîm yn rhagorol drwy gydol y gystadleuaeth. Da iawn i chi gyd — rydym yn hynod falch ohonoch!

Congratulations to all members of the Year 4 football team for representing the school in a tournament at Leckwith. The team successfully reached the semi-final, scoring several goals along the way. Their teamwork and cooperation were excellent throughout. Well done to you all — we are extremely proud of you!

## Mabolgampau / Sports Day

Bydd mabolgampau'r ysgol yn cael eu cynnal **ddydd Iau, 4 Mehefin** (os bydd y tywydd yn caniatáu!).

- Adran Iau: 9:30-11:30
- Adran Sylfaen: 1:30-3:00

Croeso cynnes i chi gyd – dewch â chadair neu flanced i eistedd arni.

The school sports day will take place on **Thursday, 4 June** (weather permitting!).

- Juniors: 9:30-11:30
- Foundation Phase: 1:30-3:00

A warm welcome to all—please feel free to bring a chair or blanket to sit on.




Mae Tafwyl 2026 yn dychwelyd i Gastell Caerdydd gyda dathliad bywiog o'r Gymraeg, diwylliant a chreadigrwydd. Bydd cerddoriaeth fyw, perfformiadau, bwyd a diod, a gweithgareddau i'r teulu cyfan – cyfle gwych i fwynhau'r gorau o fywyd Cymraeg modern mewn awyrgylch gynnes a chroesawgar yng nghanol y ddinas.

Eleni, cynhelir yr ŵyl ddydd Sadwrn a dydd Sul, 20fed a 21ain o Fehefin yng Nghastell Caerdydd. Bydd disgyblion o ddosbarth Derbyn i Flwyddyn 6 yn cael cyfle i berfformio ar Lwyfan yr Ysgolion brynhawn **dydd Sadwrn (20/06) am 4:45yp**. Bydd y perfformiad yn para tua 15 munud, gyda'r disgyblion yn canu amrywiaeth o ganeuon.

Yn y gorffennol, rydym wedi cael bws i'r digwyddiad, ond eleni, yn anffodus, nid yw Menter Caerdydd yn gallu cynnig trafnidiaeth. Byddwn yn cysylltu â chi ar ôl y gwyliau os yw eich plentyn wedi dangos diddordeb, er mwyn cadarnhau os ydych yn gallu eu tywys i'r digwyddiad.
Cysylltwch â ni os hoffech drafod ymhellach. Diolch yn fawr.

Tafwyl 2026 returns to Cardiff Castle with a vibrant celebration of the Welsh language, culture and creativity. There will be live music, performances, food and drink, and activities for the whole family—a fantastic opportunity to enjoy the very best of modern Welsh life in a warm and welcoming city-centre atmosphere.

This year, the festival will take place on Saturday and Sunday, 20–21 June at Cardiff Castle.
Pupils from Reception to Year 6 will have the opportunity to perform on the Schools Stage on **Saturday afternoon (20/06) at 4:45pm.** The performance will last approximately 15 minutes and will include a variety of songs.

In previous years, transport has been provided; however, unfortunately Menter Caerdydd are unable to provide a bus this year. We will contact you after the holidays if your child has expressed an interest, to confirm whether you are able to transport them to the event.

Please get in touch if you would like to discuss further. Thank you for your support.

## Teganau yn yr ysgol / Toys in school

Atgof caredig na ddylai plant ddod â theganau, teclynnau, 'fidgets' na "squishies" i'r ysgol, gan eu bod yn aml yn cael eu colli neu eu difrodi ac weithiau'n gallu achosi gofid rhwng disgyblion.

Rydym yn deall bod rhai plant yn defnyddio'r eitemau hyn i gefnogi eu hanghenion synhwyraidd, ac rydym yn hapus iddynt gael eu defnyddio pan fo angen. Fodd bynnag, cofiwch y gallant dal fynd ar goll. Diolch am eich cefnogaeth.

A gentle reminder that children should not bring toys, gadgets, fidget toys or squishies into school, as these are often lost or damaged and can sometimes cause upset between pupils.

We do understand that some children use these items to support their sensory needs, and we are happy for these to be used where appropriate. However, please be aware they may still go missing. Thank you for your support.

# DYDDIADAU PWYSIG

| GWYLIAU HANNER TYMOR 25–29.05.26 HALF-TERM HOLIDAYS | |
|---|---|
| 01.06.26 | Diwrnod HMS – ysgol ar gau i ddisgyblion<br>INSET day – school closed for pupils |
| 02.06.26 | Lluniau dosbarthiadau a thimoedd<br>Class and team photographs |
| 02.06.26 | Ceisiadau ar gyfer Meithrin Ionawr a Pasg 2027 yn agor |
| 03.06.26 | Gweithdy mecaneg Dosbarth Collen ac Ywen<br>Mechanics workshop Collen and Ywen classes |
| 17.06.26 | Gwasanaeth Dosbarth Collen 2yp<br>Collen class assembly 2pm |
| 19.06.26 | Gweithdy Dŵr Cymru Dosbarth Collen ac Ywen<br>Welsh Water workshop – Collen and Ywen classes |
| 20.06.26 | TAFWYL DYDD SADWRN / SATURDAY<br>Manylion i ddilyn / Details to follow |
| 25.06.26 | Diwrnod pontio 2 Plasmawr Bl 6<br>Plasmawr Transition day 2 Yr 6 |
| 25.06.26 | Noson rhien Plasmawr if l 6<br>Yr 6 Parents evening for Plasmawr |
| 30.06.26 | Diwrnod pontio 3 Plasmawr Bl 6<br>Plasmawr Transition day 3 Yr 6 |
| 02.07.26 | Diwrnod pontio Plasmawr **Bl 5**<br>Plasmawr Transition day **Yr 5** |
| 02.07.26 | Gwasanaeth Dosbarth Ywen 2yp<br>Ywen class assembly 2pm |
| 03.07.26 | Gwasanaeth Dosbarth Gwernen 2yp<br>Gwernen class assembly 2pm |
| 06.07.26 | Cyngerdd Rocksteady i rieni<br>Rocksteady concert for parents |
| 07.07.26 | Cyfarfod Llywodraethwyr<br>Governing Body meeting |
| 10.07.26 | Gwasanaeth Dosbarth Derwen 2yp<br>Derwen class assembly 2pm |
| 15.07.26 | Trip DD – bl 2 a Dosbarth Enfys i Parc Play<br>Reception – Yr 2 and Dosbarth Enfys – trip to Parc Play |
| 15.07.26 | Gwasanaeth gadael Bl 6 i rieni<br>Yr 6 Leavers assembly for parents |
| 17.07.26 | Diwedd Tymor i ddisgyblion<br>End of Term for Pupils |
| 19.07.26 | **Diwrnod HMS – ysgol ar gau i ddisgyblion<br>INSET day – school closed for pupils** |

cynllun chwarae agored

# Bwrlwm Tafwyl!

open access play scheme

**Mawrth - Iau 26-28.05.2026 Tuesday- Thursday**

Dosbarth Derbyn - Blwyddyn 6/ Reception - Year 6

Cofrestru ar y dydd/ Register on the day

Cyfanswm 50 i bob lleoliad/ Maximum Capacity 50

**10.00am-11.55am**

Ysgol Glan Morfa
Ysgol Coed y Gof
Ysgol Y Wern

**1.00pm-2.55pm**

Ysgol Hamadryad
Ysgol Nant Caerau
Ysgol Y Berllan Deg

- CELF A CHREFFT/ ART AND CRAFTS
- LEGO
- CHWARAEON/ SPORTS
- GEMAU/ GAMES
- GWEITHGAREDDAU STEM ACTIVITIES
- A MWY/ and more!

www.mentercaerdydd.cymru

**AM DDIM/ FREE**

Prosiect Gwyliau Gwaith Chwarae
Playworks Holiday Project

Menter Caerdydd - Rhif Elusen: 1098606. Rhif Cwmni: 4576565